



At sylw: Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk  
Rhif/Ext: 01443 744062  
Dyddiad/Date: 12.04.2019

Annwyl Syr/Madam,

### **CYNIGION I WELLA DARPARIAETH ADDYSG YNG NGHWM**

Penderfynodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Ebrill 2019 i weithredu'r cynigion o'r 1 Medi 2021.

Cafodd Adroddiad Gwrthwynebiadau ei baratoi mewn perthynas â'r cynigion. Cewch chi ddarllen hwnnw ar wefan y Cyngor, trwy ddilyn y ddolen isod. Mae modd cael copïau papur o'r adroddiad ar gais.

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx>

Cafodd y rhesymau dros y cynigion, a'r rhesymeg y tu ôl iddyn nhw, ynghyd â rhesymau dros y penderfyniad hwn i'w gweithredu nhw eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang ym mis Hydref, y llynedd. Yn ogystal â hynny, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth lawn i'r holl sylwadau a ddaeth i law yn dilyn y broses ymgynghori a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018, ynghyd â'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, a'r sawl dogfen asesu effaith a gafodd ei pharatoi. Mae crynodeb o'r rhesymau dros y penderfyniad i weithredu'r cynigion isod:

Mae crynodeb o'r rhesymau dros y penderfyniad i weithredu'r cynigion isod:

- Bydd mwy o hyblygrwydd a chyfle i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a phrifio;
- Bydd buddion buddsoddi cyfalaf sylweddol trwy adeiladu ysgol fodern a phwrpasol ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun, sy'n bodloni holl safonau amgylchedd dysgu yr 21ain Ganrif;
- Caiff deilliannau addysgol a darpariaeth eu gwella, gan y bydd disgyblion yn cael eu dysgu, yn bennaf, yn eu grŵp blwyddyn.
- Bydd ymdrochi llwyr yn y Gymraeg ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn.
- Bydd yn creu 'trwch' o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg;
- Bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg fwy yn y sector uwchradd yn cael ei datblygu;

**Tŷ Trevithick**  
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ  
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000  
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.





Mae rhagor o wybodaeth am y crynodeb yn rhan o'r ddogfen ymygyngori. Cafodd honno ei dosbarthu'n eang i bawb yr ymgynghorwyd ag e ym mis Hydref 2019. Mae'r ddogfen ar gael i bawb ei gweld ar wefan y Cyngor.

Penderfynodd y Cabinet, felly, i gymeradwyo'r cynigion fel roedden nhw wedi'u nodi yn yr Hysbysiad Statudol. Sef, gwella darpariaeth addysg yn Hirwaun trwy fuddsoddi mewn ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun; a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chynyddu nifer y lleoedd yng Nghwm Cynon Uchaf trwy droi Ysgol Gynradd Penderyn, sy'n ysgol y ddwy iaith ar hyn o bryd, yn ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwaith yn amodol ar ganlyniad boddhaol y cysyniadau statudol perthnasol.

Yn gywir

**Gaynor Davies**  
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

**Tŷ Trevithick**  
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ  
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000  
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwngch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

